

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

<b>Teitl y cynnig:</b>	<b>Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg</b>
<b>Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):</b>	<b>Iddon Edwards – Pennaeth Economy, Tai a'r Gymraeg Sara Jones – Uwch Reolwr y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg</b>
<b>Adran:</b>	<b>Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg</b>
<b>Pennaeth yr Is-adran/Yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):</b>	<b>Bethan Webb – Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cymraeg 2050</b>
<b>Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:</b>	<b>Jeremy Miles AS Gweinidog y Gymraeg ac Addysg</b>
<b>Dyddiad Dechrau:</b>	<b>Awst 2022</b>

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae cryn dipyn o sylw wedi'i roi, yng Nghymru, y DU a thu hwnt, i'r anawsterau y gall pobl eu hwynebu wrth chwilio am dai fforddiadwy o ansawdd (boed i'w prynu neu eu rhentu). Yn aml, mae'r anawsterau hynny yn gysylltiedig ag ail gartrefi. Mae hyn hefyd yn codi cwestiynau am gynaliadwyedd ein gwasanaethau cymunedol yn ogystal â'r ffaith nad yw cartrefi gwag yn ychwanegu dim at fywiogrwydd ein cymunedau. Mae ail gartrefi yn cyfrannu at yr her o ran fforddiadwyedd ac ynghlwm wrthi, ond ni ellir dweud mai ail gartrefi yw'r unig 'broblem'.

Rydym yn cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â lefelau uchel o ail gartrefi drwy dynnu ynghyd ymyraethau yn ymwneud â'r economi, tai, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y cymunedau hyn – lle gall y Gymraeg barhau i ffynnu. Un o themâu canolog y cynllun yw cefnogi cymunedau i ganfod eu syniadau eu hunain a datblygu yn ôl eu hanghenion nhw – gan weithio ochr yn ochr â rhanddeiliaid perthnasol sydd eisoes yn chwarae rhan bwysig o ran datblygu economaidd, datblygu tai a datblygu cymunedol - yn ogystal â'n partneriaid allweddol sy'n cefnogi'r defnydd o'r iaith yn ein cymunedau.

Ar ôl ymgynghori ynghylch y cynllun drafft, yn gynharach eleni, rydym wedi datblygu ymyraethau'r cynllun.

Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cynnwys yr ymyraethau canlynol:

- **Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned:** Mae gan fentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol rôl bwysig a hanfodol wrth gefnogi seilwaith economaidd a chymdeithasol ein cymunedau. Mae enghreifftiau o gymunedau yn dod at ei gilydd i ddiogelu gwasanaethau lleol ac yn datblygu mentrau cydweithredol newydd a arweinir gan y gymuned. O safbwynt y Gymraeg, mae hyn hefyd yn cyfrannu at ein gweledigaeth o greu a sefydlu manau lle gall pobl weithio a defnyddio'r iaith. Rydym wedi darparu cyllid i Cwmpas (Canolfan Gydweithredol Cymru gynt) fel y gallant sefydlu gwasanaeth cyngor a chymorth pwrpasol i helpu cymunedau i nodi cyfleoedd i sefydlu mentrau cydweithredol cymdeithasol a arweinir gan y gymuned.
- **Tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned:** Nid yw tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned yn fodel newydd. Serch hynny, ar raddfa gymharol fach y mae'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd. Gall tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned helpu cymunedau, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol i ddatblygu opsiynau sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion. Gallant greu cymunedau fforddiadwy, cydlynus a chydnerth drwy ddatblygu cartrefi sy'n eiddo i'r gymuned leol ac a arweinir gan y gymuned honno.

- **Grŵp llywio asiantiaid eiddo a rhanddeiliaid:** Mae profiad, gwybodaeth a dealltwriaeth ein hasiantiaid eiddo a'n rhanddeiliaid perthnasol o'r farchnad dai leol dros y blynyddoedd yn allweddol i ni ddeall y farchnad eiddo a'r heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg. Drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid lleol, gallwn nodi cyfleoedd newydd i weithio mewn partneriaeth a chychwyn prosiectau newydd i gefnogi ein cymunedau. Bydd y grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr fel asiantiaid eiddo, cyfreithwyr, awdurdodau lleol, cynghorwyr ariannol a darparwyr morgeisi.
- **Ymgrych - 'Cyfle Teg':** Byddwn yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau, gwerthwyr eiddo a darpar werthwyr eiddo o'r dewisiadau y gallant eu gwneud, a'r camau y gallant eu cymryd, sydd â'r potensial i fod o fudd i bobl leol a'u cymunedau. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn creu canllawiau penodol ynghylch camau y gall gwerthwyr eiddo eu cymryd a gweithdrefnau y gallant eu rhoi ar waith i gefnogi anghenion tai eu hardaloedd lleol. Mae'n bosibl y gallai hynny roi cyfle teg i bobl leol yn y farchnad dai leol.
- **Comisiwn Cymunedau Cymraeg:** Rydym wedi sefydlu'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Nod y Comisiwn yw dod i well dealltwriaeth o natur heriau ieithyddol, economaidd-gymdeithasol ac ailstrwythuro cymdeithasol yn dilyn COVID-19 a phenderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y Comisiwn yn ystyried ystod eang o feysydd polisi fydd yn rhoi gwell dealltwriaeth o sefyllfa bresennol y Gymraeg o fewn cymunedau. Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.
- **Yr Economi, Tai a'r Gymraeg:** Byddwn yn ehangu cylch gwaith Bwrdd Crwn yr Economi a'r Gymraeg i gynnwys tai a bydd yn goruchwyllo datblygu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Bydd y Bwrdd Crwn yn parhau i ystyried materion sy'n wynebu ein heconomi wledig yn ogystal â'r amodau sydd eu hangen er mwyn cefnogi'r iaith. Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cydweithio'n agos â rhaglen Arfor 2 - a fydd yn ffynhonnell werthfawr o ymyraethau economaidd gwahanol a allai wneud cyfraniad cadarnhaol o ran diogelu ein cymunedau Cymraeg.
- **Llysgenhadon Diwylliannol:** Byddwn yn sefydlu rhwydwaith o Lysgenhadon Diwylliannol i hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg. Rolau gwirfoddol fydd y rhain. Ein nod yw gweithio a dysgu ar sail profiadau Cynllun Llysgenhadon Cymru, Ecoamgueddfeydd a chynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg Menter Iaith Môn. Byddwn yn datblygu cyfres o fodiwlau a fydd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i gefnogi'r Llysgenhadon Diwylliannol er mwyn mynd ati'n hyderus i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg.
- **Enwau lleoedd Cymraeg:** Gan ein bod wedi ymrwymo i ddiogelu enwau lleoedd Cymraeg, mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol wrth ymdrin â cheisiadau ffurfiol i ailenwi eiddo sydd ag enwau hanesyddol. Gan fod bylchau mawr yn yr wybodaeth sydd gennym ledled Cymru ar hyn o bryd, ac er mwyn casglu tystiolaeth am *nifer* yr enwau sy'n newid a *sut a ble* maent yn newid, byddwn yn comisiynu ymchwil i sefydlu union raddfa'r broblem.

## Hirdymor

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ar draws Cymru a enwir yn y ddeddf i weithio tuag at saith nod llesiant. Un ohonynt yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel sydd wedi'i nodi yn ein **Rhaglen Lywodraethu 2021-2026**. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymadau mewn perthynas â chartrefi, cymunedau a'r Gymraeg - nid yn unig yr addewid i godi 20,000 o gartrefi carbon isel i'w rhentu'n gymdeithasol ledled Cymru, ond mae ymrwymiad hefyd i ddatblygu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Mae targedau **Cymraeg 2050** i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, yn naratif clir ynghylch cyfeiriad y polisi iaith. Cyhoeddwyd strategaeth **Cymraeg 2050** Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2017. Mae'r strategaeth yn cynnig gweledigaeth ar gyfer Cymru lle bydd yr iaith yn ffynnu ledled y wlad. Un o brif amcanion y strategaeth yw cefnogi isadeiledd economaidd-gymdeithasol cymunedau Cymraeg er mwyn iddynt barhau i fod yn gymunedau lle mae'r iaith yn cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. I gyflawni'r nod hwn, rhaid i ni ystyried sut gall yr ymyraethau cenedlaethol gael eu cefnogi gan fentrau eraill er mwyn gweithio gyda'i gilydd fel pecyn cytbwys i ddiogelu cymunedau Cymraeg ac i sicrhau eu bod yn gymunedau cynaliadwy a hyfyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, lle gall ein hiaith ffynnu. Dyma un o'r prif ddyheadau y tu ôl i'r penderfyniad i greu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Yn ychwanegol at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 23 Tachwedd fod ardal Dwyfor wedi cael ei dewis fel lleoliad i dreialu a gwerthuso nifer o ymyraethau (gan gynnwys nifer o ymyraethau Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg) a'u heffaith gronnus. Byddwn yn gweithio y tu hwnt i'r ardal beilot i ddatblygu a rhannu'r hyn a ddysgir o bob cwr o Gymru. Mae Dwyfor yn un o gadarnleoedd y Gymraeg – yma, mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd beunyddiol, ond mae hefyd yn ardal sydd â chlwstwr o gymunedau lle mae niferoedd uchel o ail gartrefi.

## Atal

Cynhaliwyd ymgynghoriad i ystyried sut gall y pecyn ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â lefelau uchel o ail gartrefi gael eu hategu ar lefel gymunedol i gefnogi a gwarchod y Gymraeg. Roedd yn holi barn pobl ynghylch pa fentrau ychwanegol sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl, yn enwedig pobl ifanc, fforddio byw a gweithio yn ein cymunedau Cymraeg.

Credwn y bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cefnogi anghenion ein cymunedau Cymraeg ledled Cymru wrth i ni gynnig datblygu pecyn cymorth drwy:

- Helpu i greu mentrau cymdeithasol a arweinir gan y gymuned a all greu cyfleoedd gwaith ac a allai sicrhau gwasanaethau o fewn cymuned;
- Ystyried ymyraethau ym maes tai ar raddfa fach a arweinir gan y gymuned o dan y model cydweithredol, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau, gwerthwyr eiddo a darpar werthwyr eiddo o'r dewisiadau y gallant eu gwneud, a'r camau y gallant eu cymryd, sydd â'r potensial i fod o fudd i bobl leol a'u cymunedau a'u hannog i aros a byw yn eu cymunedau;
- Greu Comisiwn Cymunedau Cymraeg fydd ymhen dwy flynedd, yn cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch sut i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu'r cymunedau hyn a sut i baratoi ar gyfer cynllunio ieithyddol i'r dyfodol i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Barhad y Bwrdd Crwn Economi, Tai a'r Iaith Gymraeg gan oruchwylio datblygiad y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg ac yn parhau i ystyried y materion a'r heriau sy'n wynebu ein heconomi wledig yn ogystal â'r amodau sydd eu hangen i gefnogi'r iaith. Byddwn hefyd yn cydweithio'n agos â rhaglen Arfor 2, sy'n rhannu'r un uchelgais o gefnogi a chryfhau'r Gymraeg.
- Creu rhwydwaith o Lysgenhadon Diwylliannol fydd yn mynd ati i hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg o fewn ein cymunedau.
- Gynnal ymchwil fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru ystyried pa gamau y dylid eu cymryd i reoli effeithiau *nifer* yr enwau lleoedd sy'n newid a *sut* a *ble* maent yn newid.

## Integreiddio

Mae'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg hwn yn cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â lefelau uchel o ail gartrefi. Ceir cysylltiad amlwg rhwng y nod hwn a phedwar o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Cymru lewyrchus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae angen i Gymru greu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg.

Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn becyn ymyraethau a fydd yn cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymunedau/grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid perthnasol yn y trydydd sector preifat a'r sector preifat. Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, felly, yn cydblethu â meysydd polisi Llywodraeth Cymru, bydd yn gweithio gydag arbenigwyr polisi o awdurdodau lleol, a bydd yn defnyddio profiad ac arbenigedd grwpiau cymunedol, academyddion, ymgynghorydd rheoli a ieithyddion cymdeithasol. Byddwn yn gwneud hyn drwy sefydlu'r 'grŵp llywio asiantiaid eiddo a rhanddeiliaid' a'r 'Comisiwn Cymunedau Cymraeg' a thrwy barhau i arwain ar 'Fwrdd Crwn yr Economi, Tai a'r Gymraeg'.

Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg hwn yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi yn ein **Rhaglen Lywodraethu 2021-2026** (gweler uchod o dan 'Hirdymor' i gael rhagor o wybodaeth am sut y mae'r Cynllun yn bwydo i mewn i'r Rhaglen Lywodraethu a Cymraeg 2050).

## **Cydweithio**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn arwain a datblygu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg gyda chymorth llywio clir gan randdeiliaid allweddol, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd drwy eu cyfraniadau i ymgynghoriad. Wrth symud ymlaen i'r cam gweithredu, bydd cymunedau, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn chwarae rôl allweddol o ran cefnogi a gweithredu'r ymyraethau.

Mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys swyddogion o awdurdodau lleol, asiantiaid eiddo, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr a chwmnïau cydweithredol, derbynyddion grant fel Cwmpas, y mentrau iaith a chydweithwyr ym meysydd polisi Llywodraeth Cymru megis yr economi, tai, cymunedau, y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a Cymraeg 2050. Yn ogystal, bydd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn cynnwys Comisiynwyr sydd ag arbenigedd mewn ystod eang o feysydd polisi, ee ymgynghorydd rheoli, ieithyddion cymdeithasol, academyddion, cyfreithwyr, cynghorwyr a grwpiau cymunedol. (Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, ond mae'n dangos ystod y partneriaid mewnol ac allanol y byddwn yn gweithio gyda nhw).

Bydd gan bartneriaid ran a rôl sylweddol yng Nghynllun Tai Cymunedau Cymraeg, gan ddarparu adborth ac argymhellion a dylanwadu ar waith polisi i'r dyfodol yn ystod y cyfnod gweithredu ac wrth gynllunio'n ieithyddol i'r dyfodol.

Rydym eisoes yn gweithio gyda Cwmpas i ddarparu gwasanaeth cyngor a chymorth i helpu cymunedau i ganfod cyfleoedd i sefydlu mentrau cymdeithasol neu fentrau cydweithredol a arweinir gan y gymuned. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda Dolan a'u pecyn ar dwristiaeth gynaliadwy a arweinir gan y gymuned, ac yn datblygu'r cynllun busnes ymhellach o ran sut y gall cymunedau greu eu dulliau eu hunain o gefnogi tai fforddiadwy lleol.

## **Cynnwys**

Gan fod y maes gwaith hwn yn gymhleth, rydym yn cynnig dull gweithredu sy'n ceisio mynd i'r afael â materion creiddiol y mae cymunedau Cymraeg yn eu hwynebu. Mae yna amrywiaeth o safbwyntiau ar sut y dylai Llywodraeth Cymru ymateb, ac aethom ati felly i gynnal ymgynghoriad ar y cynnig hwn rhwng 23 Tachwedd 2021 a 22 Chwefror 2022. Anogwyd pawb yn y cymunedau yr effeithir arnynt a thu hwnt ledled Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad, p'un a oeddent yn byw, yn rhedeg busnesau, yn berchen ar eiddo, neu'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cymunedau hyn, i'n cynorthwyo i ffurfio Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Cawsom gyfanswm o 776 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Bydd y cynllun yn hybu gweithredu'r ymyraethau hyn ar sail perchenogaeth gymunedol gan mai'r gymuned sydd â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am yr heriau sy'n ei hwynebu. Bydd awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth o randdeiliaid yno hefyd i gefnogi cymunedau i weithredu'r ymyraethau.

## **Effaith**


Mae'r niferoedd mawr o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi ysgogi teimladau cryf mewn rhai cymunedau yng Nghymru ers rhai blynnyddoedd. Yn y cymunedau hyn, yn aml, mae yna ymdeimlad o anghyfiawnder bod pobl yn gallu cael eu prisio allan o'r farchnad dai leol gan y rheini sy'n prynu ail gartrefi neu gartrefi i'w gosod fel llety gwyliau tymor byr. Roeddem yn benderfynol o fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn aml, mewn cymunedau Cymraeg y mae'r ail gartrefi (er nad yw hyn yn wir bob amser), a gall arwain at batrymau perchenogaeth tai sy'n effeithio'n andwyol ar y defnydd o'r iaith mewn cymunedau sy'n greiddiol i gynaliadwyedd hirdymor ein hiaith. Mae ail gartrefi, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau ehangach, yn gallu effeithio ar fforddiadwyedd tai i bobl leol ac i ba raddau y mae tai ar gael iddynt, ac maent yn gallu codi prisiau'r farchnad dai leol. Pan fydd pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn benodol yn gadael eu cymunedau er mwyn dod o hyd i dai fforddiadwy mewn ardaloedd eraill, a hynny'n dod yn batrwm, nid yw'n anodd gweld ei fod yn gallu bygwth dyfodol yr iaith yn y cymunedau y maent yn eu gadael.

Mae sicrhau y gall pobl leol fforddio byw yn y cymunedau lle cawsant eu magu, a sicrhau iechyd a chryfder y Gymraeg fel iaith gymunedol sy'n ffynnu, yn nodau strategol allweddol i ni.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Dr Simon Brooks ei adroddiad, 'Ail gartrefi: Datblygu polisiâu newydd yng Nghymru'. Aeth Gweinidogion Cymru ati i ddarparu ymateb ysgrifenedig i Dr Brooks yn dilyn ei adroddiad, yn cadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu comisiwn i ddiogelu dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol lewyrchus. Bydd y Comisiwn yn arwain ar ddadansoddiad ieithyddol-gymdeithasol o sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau. Bydd yn datblygu model i gyflwyno tystiolaeth i awdurdodau lleol ar hyfywedd yr iaith yn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr heriau y mae cymunedau Cymraeg yn eu hwynebu ac yn meithrin gwell dealltwriaeth o heriau ieithyddol, economaidd-gymdeithasol ac ailstrwythuro gymdeithasol yn sgil COVID-19 a phenderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion polisi. Bydd y Comisiwn hefyd yn dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r newid ieithyddol a fu dros y degawd diwethaf. Yng ngoleuni hyn, bydd yn ystyried pa ymyraethau sydd eu hangen heddiw, ac yn sicrhau bod ymyraethau polisi yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â datblygu modelau sy'n helpu i ddiffinio ardaloedd o ddiddordeb a sensitifrwydd ieithyddol. Y bwriad yw nodi'n glir pa ymyraethau a chymorth sydd eu hangen yn yr ardaloedd hyn i ddiogelu'r iaith, a sut y caiff yr ymyraethau ar y cyd eu defnyddio o safbwynt iaith i sicrhau bod nodau polisi yn cael eu cyflawni. Y Comisiwn yw un o ymyraethau Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Yn ogystal, ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddwyd Ymchwil i Ddatblygu Sylfaen Dystiolaeth ar Ail Gartrefi a oedd yn archwilio graddau ac effaith perchenogaeth ail gartrefi ar gymunedau ledled Cymru. Mae'r ymchwil yn edrych ar y sylfaen dystiolaeth sy'n ymwneud â diffinio ail gartrefi, eu heffeithiau a'r ymyraethau cysylltiedig. Mae'n dangos mai'r farn yw bod ail gartrefi yn cael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol/eilaidd ar ystod o faterion.<sup>1</sup>

**Ffigur 7.1: Diagram Cadwyn Effaith Posib Ail Gartrefi**



Wrth grynhoi, cafodd 7 argymhelliad eu gwneud. Mae 3 o'r 7 argymhelliad wedi'u nodi isod, a chrynodeb o'n camau gweithredu mewn perthynas â nhw.

- Argymhelliad 2: Ni ddylid mynd i'r afael ag ail gartrefi ar wahân. Ni ddylid datblygu ymatebion polisi ar wahân. Dylai ymatebion sy'n ceisio mynd i'r afael ag effeithiau negyddol ail gartrefi fod yn elfen o ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd a chamau gweithredu i ddatgloi'r farchnad dai.

Ein camau gweithredu ni: Ni fydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhywbeth sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Mae'r Cynllun yn rhan o amrywiaeth o ymyraethau a fydd yn cael eu datblygu yn ystod y tymor hwn. Mae'r gwaith eisoes wedi dechrau ar fframwaith a system reoleiddio drwy roi pwerau i awdurdodau lleol gynyddu'r dreth

<sup>1</sup> Ymchwil i Ddatblygu Sylfaen Dystiolaeth ar Ail Gartrefi (llyw.cymru)



gyngor ar ail gartrefi a thai gwag, ac erbyn diwedd yr haf hwn bydd tai yn cael eu categoreiddio naill ai fel 'prif gartref', 'ail gartref' neu 'lety gwyliau tymor byr', a bydd angen caniatâd cynllunio ar berchnogion gan eu hawdurdod lleol i newid o un categori i'r llall. Er mwyn profi effaith gronnus nifer o ymyraethau, bydd peilot yn cael ei gynnal yn Nwyfor, Gwynedd. Bydd cam cyntaf y cynllun peilot yn cynnwys mesurau cymorth ymarferol gyda'r nod o wneud gwahaniaeth i fynediad lleol at dai fforddiadwy ac ati.

Bydd rhanddeiliaid ac arweinwyr polisi yn chwarae rhan allweddol yng Nghynllun Tai Cymunedau Cymraeg wrth iddynt lunio argymhellion, dylanwadu ar waith polisi a chynllunio ieithyddol, a'i lywio.

- Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch y cyfeiriad y mae'n ei ffafrio a nodau unrhyw ymyriadau mewn perthynas ag ail gartrefi.  
Ein camau gweithredu ni: Ar 6 Gorffennaf, nododd y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS, ein dull uchelgeisiol tair elfen, sy'n cynnwys pecyn ymyraethau i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd ac ati. Hefyd, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg bapur ymgynghori ar y cynigion sy'n rhan o Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg, ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol amlinellodd y Gweinidog hwn hefyd gynlluniau i fynd i'r afael â'r problemau tai o fewn cymunedau Cymraeg i'r dyfodol.
- Argymhelliad 7: Gall peilota a gwerthuso amrywiaeth o dulliau polisi ar gyfer mynd i'r afael ag effaith ail gartrefi gynnig ffordd o ddatblygu ymyriadau effeithiol a'r ddealltwriaeth ehangach o effaith ail gartrefi.  
Ein camau gweithredu ni: Bydd y dulliau hyn o fynd i'r afael ag effaith ail gartrefi yn cael eu gweithredu yn Nwyfor, Gwynedd. Bydd rhai o ymyraethau Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cael eu treialu yn Nwyfor, a byddant yn cael eu gwerthuso'n annibynnol.

Bydd ymchwil bellach yn cael ei chomisiynu o dan Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg er mwyn casglu tystiolaeth o union raddfa *nifer* yr enwau lleoedd sy'n newid a *sut* a *ble* maent yn newid. Unwaith y bydd yr ymchwil wedi ei chwblhau, byddwn yn ystyried y canfyddiadau ac yn cymryd camau i reoli rhai o'r newidiadau hyn.

## **Costau ac Arbedion**

Gan mai pecyn o wahanol ymyraethau yw'r cynllun, nid yw'n bosibl amlinellu'r costau a'r arbedion manwl gan nad Llywodraeth Cymru sy'n uniongyrchol gyfrifol am weithredu pob elfen o'r cynllun.

Ond, mae'r gyllideb ar gyfer 2022-23 i'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn £465k

Wrth ddatblygu'r cynllun, gellir talu costau gweinyddol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfraniad swyddogion, drwy gyllidebau sy'n bodoli eisoes.

## **Mecanwaith**

Nid oes deddfwriaeth yn cael ei chynnig o ran hyn. Casgliad o ymyraethau a gynigir, a fydd yn helpu cymunedau ac yn cefnogi unigolion a theuluoedd i weithio a byw o fewn eu cymunedau, gan ddiogelu'r farchnad dai, a sicrhau ein bod yn diogelu'r Gymraeg ac yn rhoi ymyraethau ar waith i helpu a chefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd.

## ADRAN 8. CASGLIAD

### 8.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Gan fod hwn yn faes cymhleth, a bod amrywiaeth o safbwyntiau ar sut y dylai Llywodraeth Cymru ymateb, aeth Llywodraeth Cymru ati i lansio ymgynghoriad ar y cynnig hwn rhwng 23 Tachwedd 2021 a 22 Chwefror 2022. Anogwyd pawb yn y cymunedau yr effeithir arnynt a thu hwnt ledled Cymru i ymateb i'r ymgynghoriad, p'un a oeddent yn byw, yn rhedeg busnesau, yn berchen ar eiddo, neu'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y cymunedau hyn, i'n cynorthwyo i ffurfio Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 776 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

### 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

- Y Gymraeg a lles diwylliannol

Mae targedau *Cymraeg 2050* i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, yn naratif clir ynghylch cyfeiriad y polisi iaith yng Nghymru. Mae Cymraeg 2050 yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl cymunedau Cymraeg o ran darparu cyd-destun cymdeithasol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn gydnaws â nodau Cymraeg 2050 ac yn cydnabod:

- Pwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel y brif iaith a siaredir yn ein cymunedau Cymraeg,
- Mwy o gyfleoedd i blant ac oedolion ddysgu ac, i'r rhai sy'n dysgu neu sydd eisoes yn siarad yr iaith, ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson ble bynnag yng Nghymru y maent yn byw.

Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl cymunedau Cymraeg o ran darparu cyd-destun cymdeithasol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Sefydlu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026.

- Yr economi

Ni fyddai'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol ar fusnes gan mai pecyn ydyw i gefnogi a helpu cymunedau sy'n wynebu lefelau uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ac sy'n dioddef yn sgil hynny.

Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cymryd camau pwrpasol (tai cydweithredol) i sicrhau bod pobl leol yn gallu fforddio prynu neu rentu cartref o fewn eu cymunedau. Mae hefyd yn cynnwys cefnogaeth i bobl a/neu gymunedau ddod at ei gilydd i ffurfio mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned er mwyn diogelu amwynderau lleol a

chreu gwaith a swyddi i bobl leol. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl asesu'n gywir i ba raddau y byddai'r camau hyn yn effeithio ar y busnesau presennol a'r cyhoedd.

Yn sgil gweithredu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, rhagdybir y bydd pobl yn aros o fewn eu cymunedau. Yn anuniongyrchol, gallai hyn gefnogi busnesau lleol, wrth i bobl leol ddefnyddio'r busnesau hynny drwy gydol y flwyddyn. Gallai hefyd gefnogi gwasanaethau lleol gan y byddai pobl yno i'w defnyddio'n gyson. Pan gaiff ail gartrefi a llety gwyliau eu defnyddio am ran o'r flwyddyn yn unig, efallai mai dim ond yn ystod y cyfnodau hynny y caiff gwasanaethau lleol eu defnyddio. Ar y llaw arall, cydnabyddir y gallai colli ymwelwyr sy'n dod i aros mewn ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr arwain at rai effeithiau niweidiol mewn ardal, er enghraifft llai o wariant gan dwristiaid mewn busnesau lleol a llai o waith adeiladu a chynnal a chadw. Ond nid yw'r dystiolaeth lawn gennym ynghylch y ffactorau hyn i gyd, gan eu bod yn faterion cymhleth.

- Cefn gwlad

Mae'r rhan fwyaf o gymunedau Cymraeg mewn ardaloedd gwledig. O fewn ardaloedd gwledig hefyd ceir cymunedau sydd â niferoedd uchel o ail gartrefi (mae lefelau uchel o ail gartrefi yng Nghaerdydd ac Abertawe hefyd wrth gwrs). Ers rhai degawdau bu pryderon mewn llawer o gymunedau gwledig bod y galw am ail gartrefi wedi cynyddu prisiau tai. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor llawer o gymunedau gwledig a Chymraeg. Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol fel pecyn ychwanegol o ddulliau gweithredu i ddelio â materion fforddiadwyedd ac ail gartrefi (y dull tair elfen). Nod Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw grymuso cymunedau i greu a datblygu cynlluniau ar eu cyfer eu hunain. Gwneir hyn drwy dynnu ynghyd ymyraethau yn ymwneud â'r economi, tai, datblygu cymunedol a chynllunio ieithyddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y cymunedau hyn – lle gall y Gymraeg barhau i ffynnu.

Fel y nodwyd uchod, nod y cynllun yw grymuso cymunedau i greu a datblygu cynlluniau ar eu cyfer eu hunain. Ni fydd yn gorfodi cymunedau i ddilyn llwybrau gweithredu penodol. Mater i gymunedau yw gweithredu yn ôl eu dymuniadau, ac i gefnogi hyn rydym wedi datblygu pecyn o ymyraethau ategol. Byddwn yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid, felly, i ymwneud â chymunedau.

Er nad yw materion yn ymwneud â fforddiadwyedd, ail gartrefi a'r Gymraeg yn gyfyngedig i gymunedau gwledig a Chymraeg, mae'n amlwg bod nifer uchel o gymunedau sydd â lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg a niferoedd uchel o ail gartrefi yn rhai gwledig. Nod y cynnig hwn yw cefnogi pobl o bob oed, ond bydd yn blaenoriaethu ein pobl ifanc yn arbennig, i'w helpu i aros yn ein cymunedau gwledig. Rydym hefyd am helpu a chefnogi pobl sy'n dymuno dychwelyd i'r cymunedau lle cawsant eu magu. Mae tueddiad i'n cenhedlaeth iau adael ein cymunedau gwledig. Rydym yn cydnabod bod hyn yn gymhleth, ac nid un ffactor benodol sy'n gyfrifol (e.e. diffyg cyfleoedd gwaith, diffyg tai fforddiadwy). Mae allfudo yn rhywbeth cyffredin mewn llawer o gymunedau gwledig ledled Cymru a thu hwnt. Rydym yn cydnabod cymhlethdod y materion hyn,

ac felly byddwn yn datblygu pecyn ymyraethau i geisio helpu pobl sy'n dymuno aros yn y cymunedau lle cawsant eu magu, neu ddychwelyd iddynt, i wneud hynny.

Un o brif ymyraethau Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw creu neu ddatblygu mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned. Nod yr ymyraeth hon yw cefnogi cymunedau i edrych ar gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd newydd yn ogystal â diogelu gwasanaethau lleol. E.e. os yw'r siop groser leol mewn perygl o gau, ein nod yw gweithio gyda chymunedau i weld pa gyfleoedd sydd ar gael i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn parhau. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r cynllun Cymunedau'n Creu Cartrefi i nodi a chefnogi cymunedau sy'n dymuno datblygu eu tai cydweithredol eu hunain dan arweiniad y gymuned. Mewn achosion felly, byddwn yn gweithio gyda chymunedau i nodi tir ac asedau cymunedol y mae modd eu datblygu i ddarparu tai. Bydd Cwmpas yn bartner allweddol yn y gwaith hwn, a bydd eu profiad a'u harbenigedd yn y maes yn ffactor allweddol wrth gefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned.

Rydym yn cydnabod bod dangosydd Mynediad at wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos bod llawer o ardaloedd gwledig ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn hanesyddol, mae poblogaethau gwledig wedi gorfod teithio ymhellach i gael mynediad at wasanaethau hanfodol. Mewn rhai achosion, a lle mae cefnogaeth i wneud hynny, bydd y cynllun yn helpu cymunedau i gadw gwasanaethau allweddol. Bydd hefyd yn gweithio gyda chymunedau i greu gwasanaethau newydd a chyfleoedd am swyddi.

Rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg drafft. Daeth bron i 800 o ymatebion i law, llawer gan unigolion a sefydliadau yn Ynys Môn, Conwy, Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin a Sir Benfro – sydd i gyd yn ardaloedd gwledig ac â lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg. Roedd yr ymatebion yn fodd o helpu i gryfhau a datblygu ymhellach lawer o gynigion y cynllun.

### **8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg hwn yn cynnig pecyn o ymyraethau i gefnogi cymunedau Cymraeg sydd â lefelau uchel o ail gartrefi. Ceir cysylltiad amlwg rhwng y nod hwn a phedwar o'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Cymru lewyrchus
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae angen i Gymru greu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg.

Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn becyn ymyraethau a fydd yn cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cymunedau/grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid perthnasol yn y trydydd sector preifat a'r sector preifat. Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, felly, yn cydblethu â meysydd polisi Llywodraeth Cymru, bydd yn gweithio gydag arbenigwyr polisi o awdurdodau lleol, a bydd yn defnyddio profiad ac arbenigedd grwpiau cymunedol, academyddion, ymgynghorydd rheoli a ieithyddion cymdeithasol. Byddwn yn gwneud hyn drwy sefydlu'r 'grŵp llywio asiantiaid eiddo a rhanddeiliaid' a'r 'Comisiwn Cymunedau Cymraeg' a thrwy barhau i arwain ar 'Fwrdd Crwn yr Economi, Tai a'r Gymraeg'.

#### 8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Yr economi, tai a'r Gymraeg	Caiff cofnodion a champau gweithredu'r Bwrdd Crwn eu nodi a'u rhoi ar waith.
Mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a arweinir gan y gymuned	Byddwn yn monitro ac yn cofnodi pob menter gymdeithasol, cwmni cydweithredol a arweinir gan y gymuned a gofod Cymraeg ei iaith a gaiff eu sefydlu neu eu datblygu dros gyfnod Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg.  Byddwn yn monitro ac yn cofnodi'r allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnir drwy grant Cwmpas fel rhan o amodau eu grant.
Tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned	Byddwn yn monitro ac yn cofnodi'r allbynnau a'r canlyniadau a gyflawnir drwy grant Cwmpas fel rhan o amodau eu grant.
Grŵp llywio asiantiaid eiddo a rhanddeiliaid	Bydd y grŵp llywio yn helpu i rannu gwybodaeth ac arferion gorau, cyfle i ddeall marchnadoedd tai lleol yn ogystal â rhannu gwybodaeth am gynlluniau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i helpu pobl lleol i brynu neu rentu tai fforddiadwy. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn helpu i ddatblygu polisiâu yn y dyfodol.
Ymgyrch tai lleol - 'Cyfle Teg'	Byddwn yn gallu monitro'r defnydd o'r canllawiau a'r ymgyrch gyfan. Bydd y canlyniadau yn cael eu cofnodi gan y byddwn yn gallu gweld nifer y cartrefi a gaiff eu gwerthu yn unol â'r canllawiau.

Comisiwn Cymunedau Cymraeg	Bydd y Comisiwn yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru. Bydd y Comisiwn yn dadansoddi ffigurau cyfrifiad 2021 ynghyd â data perthnasol eraill, yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid ac arbenigwyr perthnasol mewn sawl maes er mwyn deall yn well yr heriau sy'n wynebu cymunedau Cymraeg.
Llysgenhadon Diwylliannol	Byddwn yn monitro nifer y bobl sy'n rhan o'r rhwydwaith Llysgenhadon Diwylliannol sy'n mynd ati i hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithio a dysgu ar sail profiadau Cynllun Llysgenhadon Cymru, Ecoamgueddfeydd a Chynllun Hyrwyddwyr y Gymraeg Menter Iaith Môn.
Enwau lleoedd Cymraeg	Unwaith y bydd yr ymchwil wedi ei chwblhau, byddwn yn ystyried y canfyddiadau ac yn cymryd camau i reoli rhai o'r newidiadau hyn.

Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cael ei werthuso'n annibynnol.


## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymroddedig i'r strategaeth newydd, gyda tharged o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisiau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i strategaeth Cymraeg 2050:





Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gwahanol fathau o weithgareddau a allai effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os yw'n bosibl y gallai eich polisi gael effaith ar bobl, bydd yn cael rhyw fath o effaith ar siaradwyr Cymraeg ac ar y Gymraeg.

Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg: **04/09/22**

1. A yw'r cynnig yn cysylltu'n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?*

Ydy. Mae targedau *Cymraeg 2050* i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, yn naratif clir ynghylch cyfeiriad y polisi iaith yng Nghymru. Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl cymunedau Cymraeg o ran darparu cyd-destun cymdeithasol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn gydnaws â nodau *Cymraeg 2050* ac yn cydnabod:

- Pwysigrwydd cynnal y Gymraeg fel y brif iaith a siaredir yn ein cymunedau Cymraeg,
- Mwy o gyfleoedd i blant ac oedolion ddysgu ac, i'r rhai sy'n dysgu neu sydd eisoes yn siarad yr iaith, ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson ble bynnag yng Nghymru y maent yn byw.

Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl cymunedau Cymraeg o ran darparu cyd-destun cymdeithasol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg.

Sefydlu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026.

2. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg. Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? Dylech nodi eich ymateb i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, yn ogystal â chynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall:
  - ◆ Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg<sup>2</sup> (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Sefydlwyd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg i gefnogi cynaliadwyedd y Gymraeg o fewn cymunedau Cymraeg lle mae lefelau uchel o ail gartrefi. Mewn nifer o'r cymunedau hyn, mae ail gartrefi wedi bodoli ers degawdau. Ond amlygodd pandemig COVID-19 bryderon bod y galw am ail gartrefi yn gwthio prisiau tai ymhellach o afael pobl leol. Mynegwyd pryderon hefyd am ddyfodol y

---

<sup>2</sup> Gall y rhain fod yn gymunedau clos yng nghefn gwlad, mewn rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn trefi ac mewn rhith-gymunedau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth.

Gymraeg fel iaith gymunedol fyw. Yn aml, y Gymraeg yw prif iaith cymunedau gwledig ac arfordirol. Os na all pobl leol fyw mewn ardal, gallai'r defnydd o'r Gymraeg a'r nifer sy'n ei siarad ostwng.

- ♦ Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar addysg Gymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)?

Nod Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw cefnogi cymunedau i ddatblygu eu cynlluniau cymunedol eu hunain ym maes tai, datblygu economaidd a datblygu cymunedol. Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn gweithio'n agos gyda'r dulliau gweithredu cenedlaethol o ran fforddiadwyedd ac ail gartrefi. Er na fydd y dulliau hyn nac ymyraethau Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn uniongyrchol gysylltiedig â darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, y gred yw y bydd cefnogi pobl leol i aros yn y cymunedau lle cawsant eu magu, neu ddychwelyd iddynt, yn cefnogi addysg Gymraeg.

Bydd Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg hefyd yn cynnwys nifer o ymyraethau, gan gynnwys creu cynllun Llysgenhadon Diwylliannol. Bydd y Llysgenhadon Diwylliannol yn annog ac yn cefnogi pobl o bob oed i ddysgu am ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith unigryw, ac yn codi ymwybyddiaeth ohonynt. Bydd hyn hefyd yn cynnwys annog pobl i ddysgu'r iaith.

- ♦ Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau<sup>3</sup> sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu andwyol)? (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)?

O fewn Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg, mae yna ymyraethau niferus sy'n cefnogi cymunedau i ddiogelu a sefydlu gwasanaethau newydd. Rydym wedi cyhoeddi pecyn cyllid o £150,000 i CWMPAS er mwyn iddynt allu gweithio gyda chymunedau lleol i nodi cyfleoedd newydd i fusnesau cymdeithasol. Gallai hyn hefyd gynnwys sefydlu tai cydweithredol a arweinir gan y gymuned, a allai ddarparu digon o dai fforddiadwy yn lleol i ganiatáu i bobl sydd eisiau byw yn eu cymunedau barhau i wneud hynny. Yn ei dro, bydd hyn yn helpu i gefnogi a chynnal gwasanaethau cyfrwng Cymraeg lleol.

- ♦ Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad atynt a'u defnyddio mor rhwydd â gwasanaethau Saesneg? Pa dystiolaeth / data y gwnaethoch eu defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau â diddordeb yn y Gymraeg?

Rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022, aethom ati i ymgynghori ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg drafft. Daeth bron i 800 o ymatebion i law. Roedd yr ymgynghoriad yn fodd i

---

<sup>3</sup> Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu'r ystod o wasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, ac i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg.

unigolion a sefydliadau perthnasol ymateb i'r cynigion, a hynny yn ei dro yn help i ddatblygu llawer o'r cynigion ymhellach. Nod Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yw gweithio'n agos gyda'n cymunedau Cymraeg drwy roi cymorth ac anogaeth iddynt ddatblygu eu syniadau a'u cynlluniau eu hunain. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol i godi ymwybyddiaeth o Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg.

Cyhoeddodd Cyngor Gwynedd adroddiad *Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau, (2020)* ac roedd adroddiad Dr Simon Brooks, *Ail gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru (2021)* yn amlygu'r cymunedau yng Ngwynedd a Môn a oedd â niferoedd uchel o ail gartrefi (Ffynhonnell yr ystadegau ar gyfer y ddwy golofn gyntaf: Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, 2016, tt. 95-8). Er ei bod yn anodd gwneud cysylltiadau cymharol, yn gyffredinol mae'r data a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn dangos bod nifer uchel o ail gartrefi yn llawer o gymunedau Cymraeg ein hardaloedd arfordirol.

- ◆ Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Caiff Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg ei werthuso'n annibynnol i sicrhau ein bod yn asesu effaith yr ymyraethau arfaethedig. Bydd hyn ymhen amser yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o effeithiolrwydd y camau a gymerwn yn ogystal â'n helpu i ddatblygu cofnod o wersi a ddysgwn.

- ◆ Sut y byddwch yn gwybod a yw eich polisi yn llwyddiant?

Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn cynnwys ystod eang o ymyraethau yn seiliedig ar:

- ddatblygu economaidd
- datblygu cymunedol
- cynllunio ieithyddol
- tai

Fel y nodwyd uchod, rydym yn bwriadu gwerthuso Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg yn annibynnol, a fydd yn ein helpu i ddeall effeithiolrwydd y Cynllun a pha newidiadau / gwelliannau sydd eu hangen yn y dyfodol i gyflawni nodau'r Cynllun.